

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Stan Roberts (Llanfair) y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i deulu, gan weddio y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun, a hefyd Kate Davies (Llansannan), Gwenfyl Williams (Tanyfron), a Morfudd Williams (Henllan) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw amdanynt, a hyderwn y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Cofiw'n yn ein gweddïau hefyd am y rhai hynny sy'n derbyn triniaeth tymor hir ac eraill sy'n wynebu triniaeth.
- Llongyfarchiadau i Dyfan Jones (Groes) a Hayley ar enedigaeth merch, Alys Catherine, chwaer fach i Harri. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni. Llongyfarchiadau hefyd i Osian Williams (Llanefydd) a Dwysan Lowri ar eu dyweddiad.

## I ddod

- **ADUNIAD SOULED OUT (15-19 OED)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 29ain–31ain. Siaradwyr y penwythnos fydd Derek Rees, Owain Edwards, Jos Edwards, Rhodri Gwynant Jones, a Gwion a Sarah Dafydd. Cewch ffurflen gofrestru ar wefan [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net).
- **CLWB CINIO NESAF YNG NGHEFN BERAIN** dydd Gwener, Chwefror 5ed am 12.00.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 5ed–7fed. Bydd mwy o fanylion a ffurflenni cofrestru ar gael erbyn yr wythnos nesaf. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 27ain**.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 19eg–21ain. Yma eto, mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 5ed**.
- **LLANW** – Daeth yn amser i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw fydd yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Os am aros yn Hafan y Môr, cewch ostyngiad o £20 dim ond i chi archebu lle **erbyn Ionawr 22ain**. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) i gael mwy o fanylion a ffurflen archebu.



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10<sup>fed</sup> Ionawr 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 2:1-4

(BCND tud.620/BCN: tud.566)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Gobeithio i chi gael bendith yn yr oedfaon dechrau'r flwyddyn wrth ganmol Duw am ein cynnal ar hyd y flwyddyn ac wrth i ni ymgysgru o'r newydd i'r Arglwydd Iesu. Mae ffydd yn Nuw heddiw yn cael ei gryfhau wrth i ni edrych yn ôl ac wrth i ni feddwl am yr hyn sydd o'n blaenau fel plant iddo. Wrth edrych yn ôl, gwelwn y treialon a'r amseroedd caled a gawsom a sut y cynhaliwyd ni ynndynt a thrwyddynt. Ac wrth edrych ymlaen rydan ni'n gweld Iesu a'r gogoniant a ddarparwyd i ni ynndo fo. Yn y presennol i ni mae'r ddau beth yn gymysg fel blagur y ddeilen ar bren sy'n ymddangos mor galed a chrin.

Un o'r cyfarfodydd y bûm i ynndo yr wythnos yma oedd cyfarfod cydenwadol y Feibl Gymdeithas yn Llansannan. Mae eleni wedi ei dynodi fel blwyddyn y 'Beibl Byw' ac fe fydd llawer o weithgarwch yr enwadau eleni yn ein harwain ni i ystyried ein perthynas hefo'r Beibl a'n defnydd ohono. Cafodd Byd Mari Jones yn Llanycil flwyddyn lwyddiannus ac un nodwedd o'r hanes sy'n cael ei bortreadu yno ydi dylanwad y Beibl ar y byd. Nid hen hanes ydi hwn fel y cawsom ein hatgoffa gan Gaynor Williams o'r Eglwys yng Nghymru y noson o'r blaen. Cyfeiriodd hi at brofiad y rhai fu'n helpu'r ffoaduriaid yn Calais y llynedd pan ddaru nhw ofyn i'r ffoaduriaid os oedd angen rhywbeth arnynt gan ddisgwyl cael ateb a fyddai'n cyfeirio at eu hangen am fwyd neu ddillad neu lle i gysgu. Yn hytrach nag ateb felly, yr ateb syfrdanol oedd "byddem yn hoffi cael copi o'r Beibl yn ein hiaith ni". A'r rheswm oedd fod y Beibl yn cynnal eu hysbryd a'u gobaith, ond hefyd gan y byddai meddiannu copi o'r Beibl yn arwydd o'u rhyddid! Iddyn nhw yn eu hamgylchiadau anodd, roedd y Beibl yn Feibl Byw – yn gallu cysuro a chynnal gobaith ac yn gallu cadarnhau eu ffydd yn Iesu sydd wedi ein prynu i ryddid. Efallai fod a wnelo cyfoeth a dedwyddwch materol ein bywydau ni rywbeth â'r ffaith mai ychydig iawn o ddarllen a wnawn ar y Beibl drosom ein hunain. Pan mae'r nos yn gwasgu ar ein henaid, mae Gair Duw yn goleuo ac yn cael ei fywhau i ni gan yr Ysbryd Glân.

Byddwn ninnau, gobeithio, yn cael ein herio i ddod o'r newydd at y Beibl eleni. Un cyfrwng fydd y defnydd a wnawn yn Oedfa'r Fro o Lawlyfr Cwrs y Beibl sy'n gyfres o astudiaethau sy'n rhoi trosolwg o'r Beibl ac yn gosod cwestiynau i ni i'w hystyried o wythnos i wythnos. Nid llawlyfr defosiyniol ydi o fel rhai yn y gorffennol – mae'n fwy o lawlyfr "DIY" i'n helpu i ddefnyddio cynnwys y Beibl a'i roi ar waith yn ein bywydau.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Hebraid 4:12-16 (BCND tud.242 / BCN tud.222)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a'r ieuencid, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- lau – 14<sup>eg</sup> • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> • **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 16<sup>eg</sup> • **Diwrnod Dynion** yng Ngholeg y Bala rhwng 10.00 a 4.30 yng nghwmni Mike Adams, Llanelli. Cyfle i ddyinion o bob oed (15-99!) i fwynhau cwmni ei gilydd dros air Duw, cael cinio da, ac os bydd y tywydd yn caniatáu, i fynd am dro. Cysylltwch â Choleg y Bala (01678) 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) i archebu lle.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog **am 10.30**. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Llun – 11<sup>eg</sup> Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn gyda'r Parch. Dafydd Job yng Nghefn Meiriadog am 7.00.
- Mawrth – 12<sup>fed</sup> Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Ionawr 10fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhag-hysbys Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Eglwys Unedig Llansannan nos Iau, Ionawr 21ain am 7.30. Croeso i bob aelod.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd y casgliad yn mynd tuag at waith 'Shelter Cymru'. Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Ionawr 10fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

### Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 [sarah@eglwysibroaled.com](mailto:sarah@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.